# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaethau Cymorth Carennydd**

**Gwasanaethau Gofal Aman**
**Yr Hen Lyfrgell**
**Stryd Fawr, Glanaman**
**Rhydaman**
**SA18 1DX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

## 14 Gorffennaf 2022

14/7/2022

***Llywodraeth Cymru ©  Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Gwasanaethau Cymorth Carennydd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cymorth cartref |
| Darparwr cofrestredig | Amman Care Services Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae’r bobl yn cael eu cefnogi gan dîm o staff gofal sy'n eu hadnabod yn dda ac yn eu galluogi i fyw'n annibynnol mewn lleoliadau byw â chymorth. Mae'r staff yn ofalgar ac yn galluogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl trwy barchu unigoliaeth a darparu dewis.

Darperir gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae dogfennau gofal clir da. Mae’r bobl yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, yn nodi eu canlyniadau personol, ac yn ganolog i'r gwasanaeth a ddarperir. Rhoddir cyfle i'r bobl fynychu a gwahodd eu cynrychiolwyr i adolygiadau chwarterol o'u cynlluniau personol.

Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr ar gael yn ystod oriau swyddfa ac mae ganddynt brosesau y tu allan i oriau ar waith.

Mae'r staff yn cael eu cefnogi gan yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr ac mae'r darparwr yn sicrhau bod goruchwyliaeth unigol chwarterol yn cael ei darparu. Darperir hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb yn ôl yr angen. Ceisir darparwr hyfforddiant ar gyfer hyfforddiant sy'n benodol i'r person er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn cael yr hyfforddiant sy'n ofynnol i gefnogi’r unigolion. Mae gan yr unigolyn cyfrifol drosolwg da o'r gwasanaeth gyda chyswllt dyddiol ac mae'n cwblhau prosesau sicrhau ansawdd megis ymweliadau chwarterol ac adroddiadau adolygu ansawdd gofal bob chwe mis.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu gweithgareddau dyddiol. Mae'r bobl yn cael eu hannog a'u grymuso i ddweud beth sy'n bwysig iddyn nhw a sut maen nhw am i'w dymuniadau gael eu gwireddu. Dywedodd y bobl wrthym am bartïon a gwyliau neu deithiau y maent naill ai'n eu cynllunio neu wedi'u profi'n ddiweddar. Dywedodd y staff wrthym, "*Pobl sy'n byw yno sy'n dod gyntaf."*

Mae lleisiau'r bobl yn cael eu clywed. Mae cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn a threulir amser gyda'r unigolion yn llunio eu cynlluniau. Cynhelir adolygiadau o leiaf bob chwarter. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fynychu a chyfrannu at eu hadolygiad o'u canlyniadau personol ac yn gwahodd teulu neu gynrychiolwyr i fynychu os dymunant. Dywedwyd wrthym, *"Mae'r darparwr yn ddatryswr problemau gyda dull gweithredu cadarnhaol."*

Mae'n ymddangos bod y bobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn eu cymuned. Mae'r staff gofal yn galluogi'r bobl i gyfarfod mewn lleoliadau cymunedol a chael mynediad at wasanaethau yn y gymuned naill ai fel grŵp neu'n unigol. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael mynediad i gampfa leol yn wythnosol a gwneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus wrth hybu eu hiechyd a'u lles. Dywedodd un person sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *"Maen nhw'n fy helpu i wneud yr hyn rydw i'n ei hoffi."*

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff sy'n sicrhau bod canllawiau COVID-19 yn cael eu dilyn gan ddefnyddio cyfarpar diogelu personol a chynnal profion COVID-19 yn ôl yr angen fel mater o drefn.

Mae'r staff yn ymwybodol o ddiogelu a'r prosesau i'w dilyn ac yn mynychu hyfforddiant yn ôl yr angen. Pan fydd llai o alluedd gan y bobl i wneud penderfyniadau, mae'r asesiadau galluedd meddyliol gofynnol yn cael eu cwblhau a chynhelir cyfarfodydd i bennu'r penderfyniadau budd pennaf. Mae gweithwyr proffesiynol yn cael eu cynnwys yn ôl yr angen fel bod gofal a chymorth priodol yn cael eu darparu mewn modd amserol.

Mae'r bobl yn cael eu hysbysu. Mae datganiad o ddiben a chanllaw defnyddiwr gwasanaeth y gwasanaeth ar gael iddynt yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn dibynnu ar eu dewis. Mae gan y bobl y mae'n well ganddynt siarad Cymraeg y staff i gefnogi hyn.

## Gofal a Chymorth

Ysgrifennir cynlluniau personol mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Ceir gwybodaeth fanwl am gefndir y bobl a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae canlyniadau a nodau’r bobl yn cael eu pennu gan yr hyn y mae’r bobl am ei gyflawni fel rhan o'u cynllun cymorth. Mae'r dogfennau'n cael eu llofnodi gan y bobl dan sylw a'r person ei hun sy'n casglu ei wybodaeth 'Amdanaf i'. Mae'r cynlluniau cymorth yn hysbysu’r staff sut i gefnogi unigolion. Mae asesiadau risg a chynlluniau arbenigol megis cynllun rheoli epilepsi ar waith lle bo angen. Mae nyrs arbenigol yn rhan o'r uwch dîm ac yn rhoi mewnbwn lle bo angen i gefnogi’r bobl a'r staff.

Mae trafodaethau gyda'r tîm a dogfennau gofal a welwyd yn dangos tystiolaeth bod adolygiadau'n cael eu cynnal gyda gweithwyr proffesiynol o leiaf bob chwarter ac yn ôl yr angen. Mae dogfennaeth newydd ar waith ac mae'n gofnod o bwy sy'n mynychu adolygiadau o gynlluniau personol a sut mae canlyniadau personol y bobl yn cael eu hadolygu. Er bod y bobl yn cael y cyfle i wahodd cynrychiolwyr, bydd hyn yn cael ei gofnodi gan y darparwr i ddangos tystiolaeth bellach o gyfranogiad y bobl yn yr adolygiad o’u cynllun gofal. Lle mae penderfyniadau budd pennaf i gael eu gwneud ar gyfer person, cymerir ymagwedd amlddisgyblaethol broffesiynol.

Rhoddir meddyginiaeth o becynnau a baratowyd ymlaen llaw gan y fferyllfa. Cwblheir cofnodion rhoi meddyginiaeth yn ôl yr angen gyda ffurflenni ychwanegol i ddangos bod y staff gofal wedi dilyn prosesau i wirio meddyginiaethau. Dywedwyd wrthym fod archwiliadau meddyginiaeth yn cael eu cwblhau gan arweinwyr tîm, ond mae hyn yn digwydd yn anffurfiol ac nid yw'n cael ei gofnodi. Gwnaethom drafod â'r darparwr ynghylch ffurfioli'r broses hon i ddangos tystiolaeth o archwiliadau sicrhau ansawdd.

Mae'r staff gofal y siaradwyd â nhw yn gwybod am y prosesau i'w dilyn wrth adrodd am ddiogelu neu unrhyw bryderon.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus, cymwys a medrus. Maent yn cefnogi’r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Dywedodd y staff gofal a’r bobl sy'n cael cymorth wrthym fod lefelau staffio'n ddigonol. Mae recriwtio yn parhau.

Mae’r darparwr yn sicrhau y cedwir at ganllawiau COVID-19 gyda'r staff yn cwblhau profion dyfeisiau llif unffordd ddwywaith yr wythnos ac yn dilyn prosesau i adrodd i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac asiantaethau eraill pan fo angen.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth yn cael ei oruchwylio gan dîm rheoli ymroddedig ac effeithiol sy'n ymdrechu i sicrhau datblygiad a gwelliant parhaus y gwasanaeth. Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith y mae gan yr unigolyn cyfrifol drosolwg ohonynt. Adlewyrchir hyn yn y gofyniad i ymweld â'r gwasanaeth bob chwarter a chwblhau adroddiad adolygu ansawdd gofal ddwywaith y flwyddyn. Dangosodd yr unigolyn cyfrifol dystiolaeth o arsylwadau a gofnodwyd yn ffurfiol ac adborth gan bobl, aelodau o'r teulu a staff fel rhan o'i waith goruchwylio.

Mae gweithdrefnau addas ar waith i fonitro recriwtio gweithwyr gofal o fewn a thu allan i'r Deyrnas Unedig. Mae gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith a gwiriadau geirda. Darperir cysgodi i ddechreuwyr newydd a chwblheir proses sefydlu cyn i'r staff weithio ar eu pen eu hunain. Roedd cofnodion electronig personél y staff yn adlewyrchu hyfforddiant a gwblhawyd a sut y gall hyn gyfrannu at dystiolaeth datblygiad proffesiynol parhaus. Cefnogir y staff i gwblhau gofynion Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan.

Gwelsom gofnodion hyfforddi'r tîm staff y gwnaethom gyfarfod â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad ac roedd y cofnodion hyfforddiant yn gyfredol. Nid oedd trosolwg tîm cyfan o'r hyfforddiant a gwblhawyd ar gael ar ffurf matrics. O fewn pythefnos i'r arolygiad, paratôdd y rheolwr fatrics hyfforddi ar ein cyfer. O hyn, deuwn i'r casgliad, yn gyffredinol, fod yr hyfforddiant gofynnol wedi'i gwblhau ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff. Mae darparwr hyfforddiant newydd yn cael ei geisio ar gyfer hyfforddiant arbenigol i sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant ar gyfer 'Cefnogi cyfathrebu effeithiol ag unigolion â nam ar y synhwyrau' a 'Chefnogi pobl â chyflwr ar y sbectrwm awtistig'.

Gwelwyd sampl o bolisïau ac maent yn cynnwys yr wybodaeth ofynnol. Gall y staff gael mynediad i'r rhain ar ap ffôn ac felly gallant gael yr wybodaeth ddiweddaraf gan fod yr wybodaeth hon ar gael yn rhwydd.

Darperir goruchwyliaeth unigol chwarterol i'r staff gofal ac mae cofnodion o hyn ar gael. Dywedodd y rheolwr a'r nyrs glinigol arbenigol wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n fawr gan yr unigolyn cyfrifol a'i gilydd fel uwch dîm gyda chyfleoedd parhaus ar gyfer cymorth a myfyrio. Dywedodd y darparwr wrthym fod y rheolwr a'r nyrs arbenigol yn cael eu goruchwylio, ond nid oedd cofnodion o hyn ar gael a dywedodd y darparwr wrthym y byddai'n sicrhau bod sesiynau yn y dyfodol yn cael eu cofnodi.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr unigolyn cyfrifol, y rheolwr a'u harweinydd tîm yn y lleoliadau byw â chymorth unigol. Mae adborth yn cynnwys: *“Rydym i gyd yn gweithio gyda'n gilydd”; “Pryd bynnag y bydd angen unrhyw beth arnoch chi, maen nhw'n darparu hwnnw*” ac “*Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi a'm parchu”.*

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 15/09/2022